

Metron Ansawdd

Kara Roberts


Tîm Datblygu Ansawdd Cartrefi Gofal Corfforaethol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

75

Rwy'n Fetron Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Comisiynu. Rwy'n gweithio mewn modd strategol ac ar y cyd â phob un o'r chwe awdurdod lleol ledled Gogledd Cymru i wella ansawdd mewn cartrefi gofal. Rwy'n frwd iawn am ansawdd gofal a sicrhau newidiadau o fewn y bwrdd iechyd ac mae gen i gefnogaeth wych gan fy rheolwyr llinell.



Fel rhan o'r tîm Datblygu Ansawdd, rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar sawl darn o waith sy'n cael eu hategu gan y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir. Mae ein heriau presennol yn unol â'r anghenion ym mhob maes o'n gwasanaethau sydd wedi eu comisiynu yn ymwneud ag osgoi derbyniadau, cynlluniau'r gaeaf a chadw trigolion yn eu cartrefi eu hunain. Her arall yw galluogi rhyddhau cynharach o ysbytai.

Ochr yn ochr â'm cydweithwyr, rwyf wedi cymryd rhan yn y gwaith o arwain a datblygu'r adnoddau cymorth ansawdd clinigol newydd a ddefnyddir yn y cartrefi nyrsio ar draws Gogledd Cymru. Ynghyd â hyn mae arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn flaenllaw o ran gofal cleifion. Rwyf wedi gweithio'n ddwys gyda meysydd arbenigol i sicrhau bod yr adnoddau yn adlewyrchu canllawiau'r arfer gorau. Mae'r adnoddau hyn wedi galluogi'r timau sydd ar waith i ganolbwyntio ar ffordd cadarnach o fonitro ac archwilio arfer clinigol ac i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella. Dull partneriaeth yw hyn sy'n gweithio ar draws awdurdodau lleol a'r timau amlasiantaethol ehangach.

Rwyf hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu ffrydiau gwaith, sydd wedi'u datblygu gan weithio gyda'r fframwaith sicrwydd ansawdd ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal ledled gogledd Cymru. Mae hyn bennaf yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant, uwchsgilio ac addysgu staff cartrefi gofal mewn lleoliadau preswyl, nyrsio a gofal cartref. Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn galluogi'r tîm i gefnogi cynlluniau gwaith presennol ynghylch pwysau'r gaeaf. Yn ogystal maent yn gymorth i'r gwaith i osgoi derbyniadau a galluogi rhyddhau cynnar o ysbytai drwy ddatblygu modelau arloesol o fewn y sector cartrefi gofal.

Rwyf wedi gweithio i'r GIG ers 30 mlynedd. Yn 18 oed, dechreuais fel gweithiwr cymorth gofal lechyd ac es ymlaen i gyflawni fy NVQ lefel 2 a 3. Yna cefais gyfle i astudio nyrsio ac yn 2005 cymhwysais fel Nyrs Gofrestredig. Ar ôl cael cymaint o brofiad ag y gallwn ar wardiau meddygol cyffredinol, gofal yr henoed a'r Uned Gofal Coronaidd, dechreuais



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

sylweddoli bod gennyf awydd dosturiol i addysgu a dod yn Nyrs Arweiniol Datblygu Ymarfer. Yn dilyn hyn, cyflawnais radd meistr mewn Arwain mewn Ansawdd.

Rwy'n parhau i fod yn frwd iawn am ansawdd y gofal y mae ein cleifion yn ei dderbyn ac mae sicrhau gofal o ansawdd uchel yn parhau i fod yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn. Rwy'n arweinydd tosturiol ac ni allwn ddychmygu gwneud unrhyw swydd arall. Rwy'n credu na fyddwn i byth wedi gallu gwireddu fy mreuddwydion o ddod yn nyrs heb gymorth y GIG a'm cynorthwyodd drwy gydol fy ngyrfa.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)